# Atebion a roddwyd i Aelodau ar 2 Gorffennaf 2009

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cynnwys

2 Cwestiynau i'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth

2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

3 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig

## Cwestiynau i'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth

**William Graham (Dwyrain De Cymru):** Beth yw blaenoriaethau'r Gweinidog ar gyfer adeiladu a gwella ffyrdd yn Nwyrain De Cymru dros y 12 mis nesaf? (WAQ54435)

**Y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth (Ieuan Wyn Jones):** Bydd y manylion yn cael eu nodi yn y Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol a gaiff ei gyhoeddi'n fuan.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

**Mick Bates (Sir Drefaldwyn):** Pa gynigion sydd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i gynyddu amrediad y cyrsiau sydd ar gael yng Nghymru ar lefel Addysg Uwch? (WAQ54432)

**Y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (Jane Hutt):** Dylwn ddechrau drwy esbonio bod pob sefydliad addysg uwch yng Nghymru yn gyrff ymreolaethol sydd â chyfrifoldeb am eu materion academaidd a gweinyddol eu hunain, gan gynnwys y broses o gynllunio a darparu cyrsiau.

Fodd bynnag, mae'r sector Addysg Uwch yn cael arian cyhoeddus o fwy na £450 miliwn y flwyddyn gan Lywodraeth y Cynulliad, ac rydym yn ceisio sicrhau bod y sector yn gwneud cyfraniadau yn unol ag uchelgeisiau cenedlaethol Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer economi ffyniannus a chynaliadwy a chyfiawnder cymdeithasol a dysgu gydol oes i bawb.

I'r perwyl hwn, mae fy Adran yn paratoi cynllun gweithredu ar gyfer Hydref 2009 a fydd, yn dibynnu ar y camau gweithredu dan sylw, yn cael effaith uniongyrchol neu anuniongyrchol ar y math o ddarpariaeth a natur y ddarpariaeth. Caiff manylion pellach eu nodi yn y Cynllun Gweithredu. Fodd bynnag, amlinellwyd pedair blaenoriaeth polisi yn fy natganiad i'r cyfarfod llawn ar 23 Mehefin:

y bwriad i ddatblygu dull gweithredu diwygiedig tuag at Fframwaith Bwrsariaeth Cenedlaethol i Gymru;

- datblygu ffyrdd newydd o ddarparu Graddau Sylfaen;
- creu a datblygu darpariaeth Addysg Uwch newydd yn ardal Blaenau'r Cymoedd;
- datblygu'r cysyniad o Goleg Ffederal ar gyfer darpariaeth Addysg Uwch Gymraeg yng ngoleuni adroddiad annibynnol yr Athro Robin Williams.

Bydd y blaenoriaethau hyn yn rhan fawr o'r strategaeth newydd a'r cynllun gweithredu ar gyfer addysg uwch yng Nghymru.

Yn ogystal, nodais fy mwriad i roi arian i gefnogi'r canlynol:

- cydweithio agosach yn y sector a chyda sectorau eraill megis Addysg Bellach (i leihau achosion o orgyffwrdd a chystadleuaeth);
- gwaith ymchwil o'r radd flaenaf, arloesedd a buddiannau economaidd sy'n deillio o hyn, gyda chyfeiriad penodol at feysydd pwnc Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg, Mathemateg a Meddygaeth.

Mae'r blaenoriaethau ychwanegol a fydd yn rhan o'r strategaeth Addysg Uwch newydd a'r cynllun gweithredu yn cynnwys y canlynol:

- yr angen i ddatblygu a darparu strategaeth fwy cydlynol ar gyfer dysgwyr rhan amser, gan gynnwys defnydd gwell o ddarpariaeth hyblyg sy'n seiliedig ar waith gan sefydliadau Addysg Uwch, a sicrhau bod dulliau ariannu'r CCAUC yn hwyluso darpariaeth ddysgu ran amser.

- yr angen i fynd i'r afael â materion sy'n ymwneud ag ymgysylltu â dysgwyr a chyfradd cwblhau'r dysgwyr, drwy werthuso mesurau cyfredol i wella dyheadau'r myfyrwyr, gwella mynediad a chefnogi'r broses o gadw myfyrwyr ym myd addysg, a'r gwaith ar y Fframwaith Bwrsariaeth Cenedlaethol;

- y nod, fel rhan o'r ystyriaeth sy'n ymwneud ag ymgysylltu â dysgwyr, yw ystyried mesurau i hyrwyddo pwysigrwydd profiad y myfyriwr a rôl y myfyrwyr yn natblygiad y polisi Addysg Uwch ar lefel genedlaethol a datblygiad polisi a sicrwydd ansawdd ar lefel sefydliadol;

- y nod yw ceisio rhoi rôl fwy cadarn i Addysg Uwch yn y broses o ddatblygu economaidd, gan gynnwys ystyried mesurau i hyrwyddo entrepreneuriaeth.

Gyda'i gilydd, bydd y datblygiadau hyn yn effeithio ar ystod, math a hygyrchedd y ddarpariaeth addysg uwch yng Nghymru.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig

**Nick Ramsay (Mynwy):** Faint o gyllideb y portffolio Materion Gwledig sydd wedi'i wario ar y trydydd sector ym mhob blwyddyn er 1999? (WAQ54413)

**Y Gweinidog dros Faterion Gwledig (Elin Jones):** Caiff y ffigurau hyn eu cynnwys yn Adroddiad Blynyddol Uned y Trydydd Sector. Darperir y ffigurau ar gyfer yr Adran Materion Gwledig ers 2001-2 yn y tabl isod.

| Blwyddyn | Swm |
|---|---:|
| 2001-2 | £204,000 |
| 2002-3 | £313,000 |
| 2003-4 | £785,000 |
| 2004-5 | £193,000 |
| 2005-6 | £35,000 |
| 2006-7 | £2,100,000 |
| 2007-8 | £2,501,000 |

**Mick Bates (Sir Drefaldwyn):** Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i sicrhau nad yw ffermwyr yn symud gwartheg sydd dan gyfyngiadau TB, i osgoi ailadrodd yr erlyniadau llwyddiannus a wnaethpwyd yn ddiweddar gan Gyngor Sir Penfro mewn cysylltiad â'r mater hwn? (WAQ54420)

**Elin Jones**: Sefydlwyd grŵp gorfodi sy'n cynnwys unigolion o Awdurdodau Lleol, Iechyd Anifeiliaid, Arolygiaeth Wledig Cymru a Swyddogion Llywodraeth y Cynulliad, i sicrhau gwaith trawsasiantaethol effeithiol a chysondeb wrth orfodi.

Yn ddiweddar, cynhaliwyd ymgynghoriad gennyf ar y newidiadau arfaethedig i'r trefniadau digolledu TB buchol yng Nghymru. Un o'r meysydd allweddol rwyf am ei ddatblygu o hyn yw'r broses o gysylltu iawndal a delir â bodloni gofynion cyfreithiol, fel cyfyngiadau symud, gan geidwaid gwartheg. Gallai methu â gwneud hyn arwain at leihad yn yr iawndal a delir neu hyd yn oed dim iawndal o gwbl. Cynhelir ymgynghoriad pellach ar y cynigion hyn yn ddiweddarach eleni.

**Nerys Evans (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog roi diweddariad i ni parthed y cynllun newydd-ddyfodiaid i ffermio? (WAQ54426)

**Elin Jones**: Byddaf yn cyhoeddi manylion y Cynllun Cymorth i Newydd-ddyfodiaid ar fore cyntaf Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru, a bydd y cynllun yn agor ar gyfer ceisiadau yn 2010, pan fydd y gyllideb ar gael. Bydd y cynllun yn cynnig cymorth buddsoddi, cyngor busnes a hyfforddiant, a bydd hefyd yn cynorthwyo â chynllunio ar gyfer olyniaeth a hwyluso mentrau ffermio ar y cyd. Mae'r gwahanol elfennau hyn yn seiliedig ar argymhellion a gafwyd yn ddiweddar gan Grŵp Gorchwyl a Gorffen pwrpasol, yn ogystal â'r ymgynghoriad cyhoeddus a gynhaliwyd y llynedd.

**Brynle Williams (Gogledd Cymru):** Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o'r effaith a gaiff llai o refeniw a gwariant cyfalaf yn 2010/2011 ar ei phortffolio? (WAQ54428)

**Elin Jones:** Mae'r mater hwn yn cael ei ystyried fel rhan o'r Ymarfer Asesu Adnoddau. Mae effeithiau'r lleihad posibl mewn refeniw a chyllidebau cyfalaf wedi'u hystyried, ac felly hefyd y gwahanol fathau o bwysau sydd ar y Prif Grŵp Gwariant. Caiff y ffactorau hyn eu mesur fel rhan o'r Ymarfer Asesu Adnoddau sy'n cael ei gynnal ar hyd Llywodraeth Cynulliad Cymru, a bydd yn arwain at ddyraniad cyllideb ddrafft ar gyfer y Prif Grŵp Gwariant Materion Gwledig. Yna, byddaf mewn sefyllfa i ystyried sut i ddefnyddio'r dyraniad cyllideb ddrafft orau, a gaiff ei gyhoeddi yn y Gyllideb Ddrafft ar ddechrau mis Hydref. Rwy'n hyderus y gallaf barhau i gyflawni'r canlyniadau sy'n ofynnol yn fy mhortffolio.

**Brynle Williams (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am reoli rhywogaethau plâu goresgynnol yng Nghymru? (WAQ54430)

**Elin Jones:** Mae gan Lywodraeth Cynulliad Cymru gyfrifoldebau statudol penodol am iechyd planhigion yng Nghymru. Rydym yn gweithio'n agos gyda'r Comisiwn Coedwigaeth, Defra a'r Gweinyddiaethau Datganoledig eraill ar reolaethau ac i baratoi cynlluniau wrth gefn ar gyfer achosion o blâu planhigion, a goruchwylio dulliau o gyfyngu a gwaredu a gyflawnir gan yr Asiantaeth Ymchwil Bwyd a'r Amgylchedd (FERA) mewn safleoedd lle ceir achosion o blâu yng Nghymru. Gyda chaniatâd Llywodraeth Cynulliad Cymru, mae gan FERA reolaethau swyddogol ar waith ar gyfer y broses o fewnforio, symud a chadw planhigion penodol, plâu planhigion a deunyddiau eraill, er mwyn atal lledaeniad organebau niweidiol yng Nghymru.

At hynny, lansiwyd Strategaeth Rhywogaethau Anfrodorol Goresgynnol Prydain Fawr ym mis Mai 2008 yng Nghaerdydd. Nod y Strategaeth hon yw lleihau effaith rhywogaethau anfrodorol goresgynnol sy'n bla ar ein treftadaeth naturiol, a chaiff ei hystyried yn un o'r strategaethau mwyaf blaengar a chynhwysfawr yn Ewrop. Gweithgor Rhywogaethau Anfrodorol Goresgynnol Cymru sy'n cydlynu materion sy'n ymwneud â'r mater hwn yng Nghymru. Maent wedi cynhyrchu Cynllun Gweithredu sydd ar gael ar wefan Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru: http://www.biodiversitywales.org.uk/sg_meetings-130.aspx.

O ran bywyd gwyllt, mae cynghorwyr yn Is-adran Gwasanaethau Technegol Llywodraeth Cynulliad Cymru yn rhoi trwyddedau a chyngor ar reoli rhywogaethau yn ôl y galw ar gyfer ystod o rywogaethau, gan gynnwys y rhywogaethau anfrodorol, gan ddelio â phroblemau sy'n ymwneud â mincod, gwiwerod llwyd a gwyddau Canada, er enghraifft. O ran y tair rhywogaeth hyn, mae'r rhan fwyaf o'r gwaith yn ymwneud â chyflwyno trwyddedau (o dan adran 16 o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981) ar gyfer saethu gwyddau Canada yn ystod y tymor gwaharddedig, er mwyn osgoi niwed sylweddol i amaethyddiaeth.

**Brynle Williams (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Gweinidog roi manylion yr arbedion effeithlonrwydd a wnaethpwyd gan ei hadran er blwyddyn ariannol 2005/2006? (WAQ54431)

**Elin Jones:** Fel rhan o agenda Creu'r Cysylltiadau, mae'n rhaid i ni wneud arbedion effeithlonrwydd o 1% bob blwyddyn o 2005/06 ymlaen. Mae'r gofyniad hwn wedi'i ymgorffori yn ein cyllidebau blynyddol.

Rydym wedi gwneud arbedion effeithlonrwydd sylweddol yn yr Is-adran Taliadau Gwledig (RPD) o'r Rhaglenni Diwygio JIGSAW a PAC. Mae'r RPD wedi lleihau nifer y staff a gyflogir yn sylweddol ers 2005/06, a dengys hyn yn y tabl canlynol:

| Dyddiad | Staff a gyflogir | Swyddi a gollwyd | Nifer y swyddi a gollwyd |
|---|---:|---:|---:|
| Ebrill 2005 | 509 | 40 | 469 |
| Ebrill2006 | 469 | 41 | 428 |
| Ebrill2007 | 520* | 16 | 504 |
| Ebrill2008 | 504 | 16.5 | 487.5 |
| Ebrill2009 | 487.5 | | |
| Nifer y diswyddiadau | | 113.5 | |

Cafodd 428 o swyddi, yn ogystal â 92 o swyddi Tir Gofal, eu trosglwyddo o Gyngor Cefn Gwlad Cymru.

Er gwaetha'r arbedion hyn, mae'r gyfran o Daliadau Sengl a delir ar y diwrnod cyntaf (1 Rhagfyr) wedi cynyddu o 75% yn 2005 i 82% yn 2008. Mae hyn yn gryn welliant o ran perfformiad.

At hynny, rydym yn ceisio bod yn fwy effeithlon yn ein gwaith ar hyd y portffolio. Er enghraifft, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi mynd i'r afael ag astudiaeth gwerth am arian sy'n ymwneud â gweithrediadau Comisiwn Coedwigaeth Cymru. Mae Comisiwn Coedwigaeth Cymru wedi rhoi cynllun gweithredu ar waith i fynd i'r afael â'r materion a godwyd gan yr astudiaeth, ac maent yn ymrwymedig i raglen waith dair blynedd i weithredu'r 13 o argymhellion ac i wneud gwelliannau effeithlonrwydd.

**William Graham (Dwyrain De Cymru):** Sut y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cynorthwyo ffermwyr yn Nwyrain De Cymru i arallgyfeirio? (WAQ54434)

**Elin Jones:** Mae Cyswllt Ffermio, a ariennir o dan y Cynllun Datblygu Gwledig, yn rhoi cymorth i fusnesau fferm o ran dewisiadau arallgyfeirio, gwella hyfywedd busnes a mynediad at farchnadoedd newydd. Mae'n cynnig Seminarau Codi Ymwybyddiaeth o Arallgyfeirio a ariennir yn llwyr, sy'n rhoi trosolwg i fusnesau fferm o elfennau hanfodol arallgyfeirio fferm, cyn i'r ffermwyr ystyried mentora un i un drwy'r Cynllun Fferm Gyfan. O dan Gynllun Fferm Gyfan y Cyswllt Ffermio, gall ffermwyr gael pum diwrnod o gyngor â chymhorthdal ar nifer o bynciau arbenigol, ac mae'n bosibl y ceir tri diwrnod ychwanegol o gyngor ar arallgyfeirio.

At hynny, mae Cyswllt Ffermio yn cynnig gweithdai cynllunio un i un a ariennir yn llwyr, lle gall ffermwyr drafod unrhyw faterion sy'n ymwneud â chynllunio mewn perthynas â'u busnes fferm, a all eu helpu yn ystod y broses o ystyried arallgyfeirio.

Mae staff Cyswllt Ffermio hefyd yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr yn Adran yr Economi a Thrafnidiaeth i sicrhau bod ffermwyr yn gwbl ymwybodol o'r cynlluniau cymorth i fusnesau perthnasol sydd ar gael iddynt gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Mae seminarau a gweithdai cynllunio arallgyfeirio Cyswllt Ffermio wedi'u cynnal yn ddiweddar yn eich rhanbarth, neu'n gyfagos, yn Aberhonddu, Pen-y-bont ar Ogwr, y Bont-faen, a ledled Cymru.

**Brynle Williams (Gogledd Cymru):** Pa drafodaethau mae'r Gweinidog wedi'u cael gydag awdurdodau lleol ynghylch y costau ychwanegol sydd ynghlwm wrth weithredu Deddf Lles Anifeiliaid 2006? (WAQ54448)

**Elin Jones:** Nid wyf wedi cynnal unrhyw drafodaethau ag awdurdodau lleol ar y costau ychwanegol o roi'r Ddeddf Lles Anifeiliaid ar waith, ond rwyf wedi gohebu ynglŷn â chostau camau erlyn a gymerwyd o dan y Ddeddf Lles Anifeiliaid.

Mynegodd yr asesiad ariannol gwreiddiol o'r Ddeddf Lles Anifeiliaid y dylai barhau'n niwtral. Fodd bynnag, am fod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn delio â chyfrifoldebau'r Ddeddf Lles Anifeiliaid, roeddem o'r farn bod cyfle'n bodoli i godi safonau lles anifeiliaid ledled Cymru.

Yn dilyn hynny, cyflwynwyd y Cynllun Gwella Lles Anifeiliaid Anwes gennym sy'n darparu arian ar gyfer awdurdodau lleol i ganolbwyntio ar weithio gyda'r trydydd sector, mynd i'r afael â phrosiectau ymchwil, nodi sefydliadau sy'n cadw neu'n gwerthu anifeiliaid anwes ym mhob sir, a datblygu rhaglenni addysgol.